








Maniffesto MND i Gymru: 2026 a thu hwnt





Ynghylch clefyd motor niwron

Mae clefyd motor niwron (MND) yn glefyd angheuol sy'n datblygu'n gyflym ac sy'n effeithio ar yr ymennydd a llinyn yr asgwrn cefn.

Er bod y symptomau'n amrywio, yn ystod eu salwch, bydd y rhan fwyaf o bobl ag MND yn gaeth mewn corff sy'n methu, yn methu â symud, llyncu, ac yn y pen draw anadlu.

Mae lleferydd fel arfer yn cael ei effeithio, a bydd llawer o bobl yn colli'r gallu i siarad yn gyfan gwbl. Bydd hyd at hanner y bobl ag MND hefyd yn profi newidiadau mewn gwybyddiaeth, a bydd rhai ohonynt yn datblygu dementia blaen-arleisiol.

Mae'n lladd traean o bobl o fewn blwyddyn o ddiagnosis, a mwy na hanner o fewn dwy flynedd. Nid oes iachâd.

Mae dros 250 o bobl yng Nghymru yn byw gydag MND a'r siawns oes o ddatblygu'r clefyd yw 1 mewn 300. Ledled y DU, mae 6 o bobl y dydd yn cael diagnosis o MND ac mae 6 o bobl yn marw.

Cymdeithas MND yw'r brif elusen yng Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon sy'n cefnogi pobl yr effeithir arnynt gan MND, gyda 90 o ganghennau a grwpiau a arweinir gan wirfoddolwyr, a 13,000 o wirfoddolwyr. Rydym yn canolbwyntio ar wella mynediad at ofal, ymchwil, ac ymgyrchu ar gyfer pobl sy'n byw gydag MND ac yr effeithir arnynt gan MND.

Wrth i ni nesáu at etholiadau'r Senedd yn 2026, mae Cymdeithas MND wedi nodi 5 maes allweddol i ganolbwyntio arnynt gyda'r nod o wella bywydau pobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru.

Rydym yn annog pob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd i ymrwymo i'n ceisiadau i'n helpu i gyflawni Cymru lle mae modd trin MND a lle y gellir ei wella, a lle gall pawb gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt.

Darpariaeth iechyd a gofal cyffredinol ledled Cymru

Mae gofal a chymorth amlddisgyblaethol yn y gymuned yn hanfodol i fynediad amserol a theg at gymorth gyda chlefyd sy'n datblygu'n gyflym fel MND. Mae degawdau o fuddsoddiad gan Fyrddau Iechyd Lleol (BIL) a'r Gymdeithas MND wedi gwella gofal yng Nghymru, gyda chydlynwyr gofal MND arbenigol bellach yn gweithio ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym mhob rhan o Gymru i gefnogi pobl sy'n byw gydag MND ac sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau o ran darparu gwasanaethau yn parhau, gan gynnwys:

- Prinder niwroleg. Dim ond 41.1 o niwrolegwyr cyfwerth ag amser llawn sydd gan Gymru ar gyfer y boblogaeth gyfan, gyda gwahaniaethau rhanbarthol amlwg. Nid oes gan Bowys yr un, ac mae Gogledd Cymru'n dibynnu ar Ganolfan Walton yn Lerpwl, sy'n darparu clinigau lloeren ar draws Gogledd Cymru ac asesiadau a gofal cleifion mewnol yn eu Canolfan. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yn 2022, yn amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer mynediad amserol a theg at wasanaethau i bobl â chyflyrau niwrolegol. Fodd bynnag, gyda mynediad mor wahanol i wasanaethau niwrolegol, mae hyn ymhell o gael ei gyflawni.
- Arosiadau hir am ddiagnosis. Yn gysylltiedig â'r uchod, mae pobl sy'n byw gydag MND yn dal i wynebu cyfnodau aros hir am ddiagnosis ffurfiol yn rhannol oherwydd arosiadau hir am asesiad. Nid oedd y rhan fwyaf o FIL yn gallu rhoi'r amser cyfartalog a gymerwyd i gael diagnosis ffurfiol, tra bod rhai yn amcangyfrif bod hyn yn cymryd 4 – 6 mis. Ond mae pobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru wedi adrodd am arosiadau llawer hirach, gydag un person yn dweud wrthym bod *“y broses ddiagnosis wedi mynd ymlaen am dair blynedd”*.
- Bylchau mewn cymorth seicolegol. Gall cael diagnosis MND greu emosiynau cymhleth i bobl sy'n byw gydag MND a'u hanwyliaid. Gall cymorth seicolegol fel therapi derbyn ac ymrwymiad (ACT) helpu i wella ansawdd bywyd a lles seicolegol pobl â chyflyrau anwelladwy fel MND. Er gwaethaf hyn, dim ond 1 BILL a ddywedodd wrthym ei fod yn darparu cymorth seicolegol i bobl sy'n byw gydag MND yn eu hardal ar hyn o bryd, gyda 5 arall yn dechrau gwasanaeth 0.6 CALI o 2025-2028 wedi'i ariannu gan Gymdeithas MND. Mae cymorth seicolegol yn rhan allweddol o'r llwybr clinigol gorau posibl ar gyfer MND¹ a rhaid iddo fod ar gael i bawb sy'n byw gydag MND ac yr effeithir arnynt gan MND ledled Cymru.
- Mae prinder gweithlu yn parhau i amharu ar fynediad at gymorth a gwasanaethau MND mewn rhai rhannau o Gymru. Tynnodd un Bwrdd Iechyd Lleol sylw at y mater, gan ddweud *“Er bod y gwasanaeth [cydgyssylltu gofal MND] wedi bod yn rhedeg ers 2017 bu bylchau sylweddol oherwydd salwch ac ymddeoliad”*. Heb weithredu ar unwaith i ysgafnhau'r baich ar staff iechyd a gofal ledled Cymru, bydd amhariadau o'r fath yn parhau, gan roi pwysau pellach ar y system sydd eisoes dan bwysau.
- Ansicrwydd o ran cyllid. Mae diffyg cynllunio hirdymor Llywodraeth Cymru wedi gadael Byrddau Iechyd yn methu trosglwyddo gwasanaethau trydydd sector fel cydgyssylltu gofal MND yn fewnol. Mae gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas MND yn dangos, er bod cytundebau ar waith i rai BIL i gymryd drosodd y gwaith o ariannu cydgyssylltu gofal MND yn llwyr o Gymdeithas MND ar ôl 2027, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid wedi'i

glustnodi i bob BILL ar gyfer y rhain yn barhaus er mwyn sicrhau parhad mewn gofal a chymorth.

- Materion parhaus gyda gofal iechyd parhaus (CHC). Mae pobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru wedi nodi eu bod wedi aros yn hir i gael mynediad at ofal iechyd parhaus a hyd yn oed pan fyddant yn ei dderbyn, mae'r system yn gymhleth i'w llywio ac nid oes digon o ofalwyr hyfforddedig yn eu hardal i ddarparu'r gofal sydd ei angen arnynt. Er ein bod yn croesawu Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru² a'r cynllun cyflawni dilynol³, mae materion recriwtio a chadw yn parhau ac mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw ar fyrder. Mae gan bobl ag MND anghenion gofal cymhleth ac mae'n hanfodol bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol ddigon o staff a hyfforddiant i reoli eu gofal yn llawn.
- Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol (IUTs). Er bod Fframwaith Cenedlaethol GIP Llywodraeth Cymru⁴ yn caniatáu IUTs, canfu data Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas MND mai dim ond un Bwrdd Iechyd sy'n ei ddarparu ar hyn o bryd, a dim ond ar gyfer claf unigol. Ni fydd canllawiau swyddogol yn cyrraedd tan 2025-26, gan adael llawer heb hyblygrwydd mawr ei angen mewn gofal.

Ein Hargymhellion:

- Rhagolygon ariannu tymor hwy ar gyfer byrddau iechyd lleol i sicrhau eu bod yn ymrwymo i drosglwyddo gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau trydydd sector yn fewnol
- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwasanaethau niwrolegol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw gydag MND
- Mwy o weithwyr gofal hyfforddedig a staff nyrsio ar gael
- Gweithredu'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol a thargedau clir i fesur cynnydd a chynyddu atebolrwydd

“Mae’n debyg bod y broses ddiagnosis wedi mynd ymlaen am dair blynedd a’r holl amser hwnnw roedd i’n cael trafferth sefyll, yna roedd dringo’r grisiau yn dipyn mwy o ymdrech; doeddwn i ddim yn rhedeg i fyny’r grisiau bellach. Roeddwn yn defnyddio cadair olwyn ar adegau cyn fy niagnosis ac roedd gen i ffyn baglau er mwyn cerdded ymhell cyn fy niagnosis.”

Person sy’n byw gydag MND yng Nghymru

“A dweud y gwir, y therapi gorau y gallwch ei gael yw gallu siarad am MND gyda rhywun sydd â’r ddealltwriaeth honno o sut rydych chi’n teimlo ac yn gallu gweld sut mae’ch meddwl yn gweithio.”

Person sy’n byw gydag MND yng Nghymru

“Rydych chi’n mynd trwy lawer o drawma yn gofalu am anwylyd sydd â chlefyd motor niwron... Pa na bai’r gwasanaeth (cymorth seicolegol) yn cael ei ariannu byddai fel dwyn pobl o’u hiachâd eu hunain rhag gofalu am rywun â chlefyd motor niwron.”

Gofalwr MND yng Nghymru

Tai diogel a hygyrch


Mae gan bawb hawl i fyw mewn cartref diogel ac addas. Mae’r newidiadau corfforol sy’n symptomatig o MND yn aml yn gofyn am addasiadau i sicrhau bod pobl sy’n byw gydag MND yn gallu aros yn eu cartrefi. Mae yn hanfodol i gynnal eu hannibyniaeth a’u hurddas, ac ansawdd eu bywyd wrth i’r afiechyd fynd rhagddo.

Mae addasiadau cartref o’r fath yn ddrud ac mae Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFGs) yn hanfodol ar gyfer ariannu’n newidiadau hyn, ond eto mae problemau cyflenwi yn achosi oedi hir neu anghymwyster i bobl sy’n byw gydag MND.

Yn 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddileu’r prawf modd ar gyfer DFGs bach a canolog ac addasiadau carlam ar gyfer pobl sy’n byw gydag MND⁵. Fodd bynnag, mae data Rhyddid gwybodaeth a gafwyd gan Gymdeithas MND⁶ yn dangos nad yw hyn yn wir o hyd:

- Mae pedwar awdurdod lleol yn dal i fod â phrawf modd naill ai’r DFGs cyfan neu ganolog.
- Dywedodd awdurdod lleol arall wrthym eu bod “ar hyn o bryd yn ystyried ei ailgyflwyno [prawf modd] oherwydd y galw mawr am DFGs canolog eu maint”.
- Dim ond saith awdurdod lleol sydd â phroses garlam ar gyfer addasiadau tai ar gyfer pobl sy’n byw gydag MND.

Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fandadu pob awdurdod lleol i gydymffurfio â’u cais i ddileu’r prawf modd a rhoi systemau carlam ar waith ar gyfer addasiadau tai.



Dyweddodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai'n casglu data ar niferoedd DFGs, cyfradd cwblhau ac amseroedd aros, yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn flynyddol. Er eu bod wedi sicrhau bod data ar niferoedd DFG a chyfraddau cwblhau ar gael⁷, nid yw data ar amseroldeb wedi'i gyhoeddi hyd yma. Fel y cyfryw, cafodd Cymdeithas MND y data hwn trwy gais Rhyddid Gwybodaeth. Nid oedd llawer o awdurdodau yn gallu darparu'r data hwn i ni naill ai am nad ydynt yn ei gofnodi neu am fod y gwaith yn cael ei roi ar gontract allanol i Care & Repair Cymru.

O'r data a gawsom, gwelsom mai'r amseroedd aros cyfartalog yn 2023-24 oedd:

- Addasiadau bach: 23 diwrnod ar gyfer addasiadau, 127 diwrnod ar gyfer gosod
- Addasiadau canolig : 66 diwrnod ar gyfer addasiadau, 146 diwrnod ar gyfer gosod

Mae'r rhain i gyd yn rhagori ar y targedau a osodwyd yn y Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai⁸ sy'n datgan y bydd addasiadau bach fel arfer yn cael eu gosod o fewn 3 wythnos (os oes brys) neu 4 wythnos (os nad yw'n frys). Ar gyfer addasiadau canolig, dylai'r asesiad fod o fewn 2 fis a'r datrysiaid wedi ei osod o fewn 4 mis.

Ein Hargymhellion:

- Llywodraeth Cymru i fandadu awdurdodau lleol i gael gwared ar y prawf modd a gweithredu systemau llwyr carlam ar gyfer addasiadau tai
- Data sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyflwyno DFGs i fonitro gweithrediad ymrwymadau Llywodraeth Cymru
- Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai i'w diweddarau i gynnwys canllawiau ar ddileu profion modd a chynnwys y broses llwybr carlam
- Awdurdodau lleol i greu a chynnal cofrestrai tai hygyrch

"Rwyf wedi gwario tua £30,000 ar geisio aros yn y tŷ hwn. Rwyf wedi bod yn ffodus bod gen l'r arian hwnnw am i mi weithio'n galed ar hyd fy oes. Dyna oedd fy arian ar gyfer diwrnod glawog ac rydw i wedi gorfod defnyddio fy mhensiwn ar gyfer rhannau ohono".

Person yn byw gydag MND yng Nghymru

Cefnogi gofalwyr MND

Yn ôl Cyfrifiad 2021⁹ mae tua 310,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, â'r gyfran fwyaf ohonynt yn darparu 50 awr neu fwy o ofal. Yn eu plith, mae gofalwyr MND yn cymryd llawer iawn o bwysau oddi ar y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy fynd i'r afael ag anghenion a fyddai fel arall yn disgyn i wasanaethau statudol.

Rydym yn amcangyfrif bod gofalwyr MND ledled y DU yn arbed £185 miliwn y flwyddyn i'r GLG, sy'n cyfateb i £37,000 fesul gofalwr y flwyddyn¹⁰. Gan fod y clefyd yn datblygu'n gyflym, mae pobl sy'n byw gydag MND a'u gofalwyr yn aml yn gorfod gadael y gwaith yn sydyn, gan roi straen emosiynol ac ariannol sylweddol ar y cartref.

Mae'n hanfodol bod gofalwyr MND yn cael y cymorth maent yn eu haeddu, ond mae sawl rhwystr yn atal hyn:

- Oedi i asesiadau gofalwyr. Mewn adroddiad diweddar¹¹ roeddem wedi canfod mai dim ond 25% o ofalwyr MND sydd wedi cael asesiad gofalwr neu yn y broses o gael un. Gwelsom hefyd fod yr amser aros cyfartalog am asesiad gofalwr rhwng 40 a 50 diwrnod.
- Annigonolrwydd y Lwfans Gofalwr. Ar £81.90 yr wythnos, mae'r Lwfans Gofalwr yn parhau i fod y budd-dal isaf yn y DU. Yn ein hadroddiad diweddar¹², dywedodd 94% o ofalwyr MND nad oedd cyfradd gyfredol y Lwfans Gofalwr yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion. At hynny, dywedodd 46% o ofalwyr MND wrthym nad oeddent yn gwneud cais er eu bod yn gymwys, yn aml oherwydd bod y broses ymgeisio wedi rhoi straen ychwanegol, diangen arnynt.
- Mae'r gwasanaethau sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer pethau fel gofal seibiant, yn wael, yn enwedig mewn rhannu gwledig o Gymru. Yn yr ardaloedd hyn mae gwasanaethau'n brin ac mae grwpiau cymorth yn gyfyngedig.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael a chymhlethdod y system yn peri gofid, yn enwedig i bobl sy'n darparu lefelau uchel o ofal o ran amser a natur y cymorth sydd ei angen.

Credwn fod angen cydweithredu ar draws Llywodraethau a diwygio o fewn y system i sicrhau bod gofalwyr MND yn cael y cymorth y maent yn ei haeddu.

Ein Hargymhellion:

- Gweithio rhynglywodraethol i adolygu lefel y Lwfans Gofalwr a diwygio mynediad ato
- Cyllid wedi'i dargedu ar gyfer gofalwyr di-dâl Nghymru i ategu hyn, gan gynnwys gwarant hirdymor ar gyfer y gronfa cymorth i ofalwyr

- Monitro awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cefnogi hawliau gofalwyr trwy gynnig asesiad i bob gofalwr sy'n caniatáu pecynnau cymorth gan gynnwys seibiant
- Ymgrych codi ymwybyddiaeth i gynyddu'r niferoedd o asesiadau gofalwyr

“Pan ydych yn ofalwr mae bron fel bod gennych chi MND, nid yn yr ystyr gorfforol, mwy yn yr ystyr emosiynol. Ac rydych yn teimlo allan o reolaeth, yn ddiymadferth – roedd dwyster y cyfan yn anhygoel.”

Gofalwr MND yng Nghymru

“Roedd anghenion diddiwedd dim ond i'w helpu i ddod yn gyfforddus a'i helpu i ddianc rhag cythreuliaid emosiynol a chorfforol MND. Byddai angen ei chodi sawl gwaith y dydd a'r nos a dylai fod yn swydd i ddau berson ond roedd yn rhaid i mi ddysgu sut i oroesi'n fedrus gyda'i chodi ar fy mhen fy hun.”

Gofalwr MND yng Nghymru

Hyrwyddo ymchwil MND

Un o addewidion Cymdeithas MND yw na fyddwn yn gorffwys nes bod modd trin MND a'i wella yn y pen draw. Mae tri maes sy'n allweddol i wneud i hyn ddigwydd:

Yn gyntaf, mae ymchwil gydweithredol o ansawdd uchel yn hanfodol wrth geisio canfod iachâd. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud cynnydd mawr dros y blynyddoedd diwethaf i hwyluso Ymchwil MND yng Nghymru gan gynnwys MND-SMART¹³ ac astudiaeth TONiC¹⁴.

Fodd bynnag, mae'r gallu i gymryd rhan mewn ymchwil yn dibynnu i raddau helaeth o hyd ar ble mae pobl ag MND yn byw. Mae'n hanfodol bod y gallu ar gyfer ymchwil yn cynyddu fel bod pawb ar hyd a lled Cymru yn gallu cyfranogi os dymunir hynny.

Yn ail, mae'n bwysig bod pawb sy'n byw gydag MND yng Nghymru yn gallu cael mynediad at y triniaethau sydd eu hangen arnynt yn gyflym. Mae sawl llwybr i gael gafael ar feddyginiaeth yng Nghymru¹⁵ ond mae argaeledd y rhain yn

amrywio ledled Cymru yn dibynnu ar wybodaeth clinigwyr a llawdriniaethau o fewn y Byrddau Iechyd Lleol.

Gyda sawl meddyginiaeth newydd addawol ar y gweill, mae angen sicrhau bod yna broses lle mae pawb yn cael yr un mynediad at driniaethau newydd pan ddônt ar gael, ni waeth ble yng Nghymru maent yn byw.

Ac yn olaf, wrth i ymwybyddiaeth o MND gynyddu, felly hefyd y galw am brofion genetig. Mae sawl ffurf etifeddol o'r clefyd, sy'n cyfrif am tua 10% o'r holl achosion. Ar hyn o bryd, mae ymchwilwyr wedi nodi newidiadau genynnau sengl ar gyfer tua 70% o MND etifeddol. Mae profi ar gyfer y rhain yn galluogi pobl sy'n byw gyda MND a'u teuluoedd i ddeall a chynllunio ar gyfer eu dyfodol, yn ogystal ag agor opsiynau ar gyfer cael mynediad at driniaethau newydd a threialon clinigol.

Nid oes dull safonol o brofi genetig ac mae'r broses yn amrywio o berson i berson ac ar draws rhanbarthau. Yn nodedig, nid oes gan lawer o fyrdau iechyd gapasiti mewnol ar gyfer profion genetig ar gyfer MND ac anfonir canlyniadau i labordai y tu allan i Gymru i'w sgrinio. Canfu data a gafwyd gan Gymdeithas MND fod:

- Sawl bwrdd iechyd yn gorfod aros hyd at flwyddyn i dderbyn canlyniadau profion genetig
- Mae llai na 30 o bobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru wedi cael profion genetig dros y 5 mlynedd diwethaf
- Mae llai na 5 aelod o deulu pobl sy'n byw gydag MND wedi cael profion genetig dros y 5 mlynedd diwethaf.


Ein Hargymhellion:

- Cyllid cynaliadwy wedi'i glustnodi ar gyfer ymchwil MND
- Adnodd pwrpasol ar gyfer profion genetig ar gyfer MND yng Nghymru
- Ymgyrchoedd i addysgu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ymwybyddiaeth o MND a llwybrau triniaeth yng Nghymru

Newid y dirwedd wleidyddol yng Nghymru

Heb gyllid digonol, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ledled Cymru yn parhau i'w chael yn anodd darparu gwasanaethau statudol, sy'n gadael clytwaith o ddarpariaeth ar gyfer y bobl sy'n byw gyda MND ac yr effeithir arnynt gan MND ledled Cymru sy'n dibynnu arnynt

Mae llawer o'n gofynion wedi'u cyfyngu gan setliad ariannu Llywodraeth Cymru. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru o grant bloc gan Drysorlys y DU, y caiff y newid blynyddol ynddo ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla



Barnett, gydag addasiadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu angen a datganoli treth a lles.

Wrth i'r pwysau ar wasanaethau statudol barhau i gynyddu, ni ellir mynd i'r afael â'r diffyg adnoddau o fewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ledled Cymru heb fod gan Lywodraeth Cymru ddigon o arian i wneud hynny. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi rhybuddio, er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y setliad llywodraeth leol, fod pwysau cyllidebol sylweddol yn parhau oherwydd y cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn enwedig ar ofal cymdeithasol a thai¹⁶.

Mae hyn yn gadael anghysondeb o ran mynediad at gymorth a gwasanaethau yng Nghymru a thros y ffin, gan arwain at arosiadau hir am gymorth, pecynnau gofal datgysylltiedig, a phryderon difrifol ynghylch casglu data a mynediad i bobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru.

Awgrymwyd yn flaenorol yn Nhŷ'r Cyffredin¹⁷ a Thŷ'r Arglwyddi¹⁸ y dylid disodli fformiwla Barnett gan fformiwla a arweinir gan anghenion. Er bod codiadau ar sail anghenion ar waith yng Nghymru, nid yw'r rhain yn ddigon i dalu am gostau gwirioneddol. Gyda gallu cymharol gyfyngedig i gynhyrchu refeniw a phŵer benthyca cyfyngedig, credwn fod yn rhaid ailedrych ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu cyllid i Lywodraeth Cymru.

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, mae gweinyddiaeth nawdd cymdeithasol gan gynnwys budd-daliadau lles i bobl yng Nghymru yn parhau i fod wedi'i gadw gan Lywodraeth y DU yn San Steffan. Credwn fod gan ddatganoli'r pwerau hyn i Lywodraeth Cymru y potensial i fod o fudd ariannol i Lywodraeth Cymru¹⁹ yn ogystal â sicrhau bod y system yn deg ac yn gweithio'n iawn i bobl sy'n byw gydag MND yng Nghymru ac sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Rydym yn croesawu'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r mater hwn, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru o dan y Senedd nesaf i barhau â'r gwaith hwn.

Ein Hargymhellion:




- Dull cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau MND ledled Cymru, gyda thegwch ar draws yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol
- Ail ystyried y setliad ariannu ar gyfer Cymru, gan symud i fodel sy'n cael ei arwain gan anghenion
- Ymchwilio i datganoli budd-daliadau lles

“Dydw i ddim yn deall pam nad oeddwn i'n gymwys ar gyfer cymorth tai awdurdod lleol; rydw i wedi gweithio'n galed ar hyd fy oes i gael tŷ teis ac mae gwerth y tŷ hwnnw wedi'i gymryd i ystyriaeth er bod gennym ni forgois mawr arno o hyd a dydw i ddim yn ennill ffortiwn a dyw fy ngwraig ddim yn ennill cymaint â hynny.”

Person yn byw gydag MND yng Nghymru

References

- 1 <https://www.nnag.org.uk/optimal-clinical-pathway-for-adults-with-motor-neurone-disease>
- 2 <https://heiw.nhs.wales/workforce/10-year-workforce-strategy-for-health-and-social-care/#:~:text=%27A%20Healthier%20Wales%3A%20Our%20Workforce,of%20the%20people%20of%20Wales.>
- 3 <https://www.gov.wales/written-statement-social-care-workforce-delivery-plan-2024-27>
- 4 <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-03/continuing-nhs-healthcare-the-national-framework-for--implementation.pdf>
- 5 <https://www.gov.wales/written-statement-removing-means-test-small-and-medium-disabled-facilities-grants>
- 6 Note: data obtained from 20 of the 22 councils in Wales, no data received from Conwy or Powys
- 7 <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Housing/Disabled-Facilities-Grants/disabledfacilitiesgrants-by-area-granttype>
- 8 <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/housing-adaptations-standards-of-service.pdf>
- 9 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/unpaidcareenglandandwales/census2021#:~:text=A%20larger%20proportion%20of%20people,with%202.7%25%20in%20England.>
- 10 <https://www.mndassociation.org/media/5031>
- 11 [https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2023-11/State of Carers%20E2%80%99Assessments report 2023.pdf](https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2023-11/State%20of%20Carers%20E2%80%99Assessments%20report%202023.pdf)
- 12 [https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2024-10/2024 MND Carer Triple Burden full report.pdf](https://www.mndassociation.org/sites/default/files/2024-10/2024%20MND%20Carer%20Triple%20Burden%20full%20report.pdf)
- 13 <https://www.mnd-smart.org/about/about-mnd-smart>
- 14 <https://tonic.thewaltoncentre.nhs.uk/about-tonic>
- 15 <https://awttc.nhs.wales/accessing-medicines/how-medicines-are-approved-for-use-in-nhs-wales/>
- 16 <https://research.senedd.wales/research-articles/draft-budget-2025-26-five-things-we-ve-learnt-from-scrutiny/>
- 17 <https://publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmselect/cmjust/529/529i.pdf#page=8>
- 18 <https://publications.parliament.uk/pa/ld200809/ldselect/ldbarnett/139/139.pdf#page=8>
- 19 https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/1476352/devolving_welfare_final2.pdf



mnda

motor neurone disease
association
cymdeithas
clefyd motor niwron

Motor Neurone Disease Association

Francis Crick House
6 Summerhouse Road
Moulton Park
Northampton
NN3 6BJ

Tel: 01604 611860

Email: campaigns@mndassociation.org

www.mndassociation.org

 [/mndassociation](https://www.facebook.com/mndassociation)

 [@mndassoc](https://twitter.com/mndassoc)

 [mndassoc](https://www.instagram.com/mndassoc)